

Erthygl 13 – Cyllid, Cytundebau a Materion Cyfreithiol

13.1 Rheolaeth Ariannol

Rheolir materion ariannol y Cyngor yn unol â'r rheolau ariannol a nodwyd yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn, gydag awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pwyllgor Archwilio i ystyried a chymeradwyo newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

13.2 Contractau

Bydd pob contract a wneir gan y Cyngor yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

13.3 Achosion Cyfreithiol

Awdurdodir Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith i gychwyn, amddiffyn neu gyfranogi mewn unrhyw achosion cyfreithiol lle bo angen gweithredu felly i gyflawni penderfyniadau'r Cyngor, neu mewn unrhyw achos lle bo Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith o'r farn bod gweithredu o'r fath yn angenrheidiol i amddiffyn buddiannau'r Cyngor.

Dylid cyfeirio hefyd at y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion a geir yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn i gael manylion pellach.

13.4 Dilysu dogfennau

Lle bo unrhyw ddogfen yn angenrheidiol ar gyfer unrhyw achos neu weithdrefn gyfreithiol ar ran y Cyngor, fe'i llofnodir gan Bennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith neu rywun arall a awdurdodwyd ganddo/ganddi, oni bai fod unrhyw ddeddfiad yn awdurdodi neu'n gofyn fel arall, neu bod y Cyngor wedi rhoi awdurdod i rywun arall o angenraid.

Rhaid i unrhyw contract sy'n werth mwy na £50,000 y cychwynwyd arno ar ran yr awdurdod lleol wrth gyflawni un o swyddogaethau'r Bwrdd Gweithredol gael ei lunio'n ysgrifenedig. Rhaid i'r cyfryw contractau naill ai gael eu llofnodi gan o leiaf ddau o swyddogion yr awdurdod, neu gael eu llunio o dan sêl gyffredin y cyngor, gydag o leiaf un swyddog yn dyst i hynny.

Dylid cyfeirio hefyd at y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion a geir yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn i gael manylion pellach.

13.5 Sêl Gyffredin y Cyngor

Cedwir Sêl Gyffredin y Cyngor mewn lle diogel, yng ngofal Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith. Bydd penderfyniad gan y Cyngor, neu unrhyw ran ohono, yn awdurdod digonol i selio unrhyw ddogfen angenrheidiol er mwyn gweithredu'r penderfyniad. Rhoddir y Sêl Gyffredin ar y dogfennau hynny y dylid ei rhoi arnynt, ym marn Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith. Bydd Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith, neu rywun arall a awdurdodwyd ganddo/ganddi, yn tystio i osod y Sêl Gyffredin.

Dylid cyfeirio hefyd at y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion a geir yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn i gael manylion pellach.